

## POLISI CYFLE CYFARTAL

- Mae'r Clwb wedi ymrwymo i bolisi o driniaeth gyfartal i'r holl aelodau. Mae'r polisi yn gofyn bod pob aelod o'r clwb, beth bynnag fo'u lefel, yn cadw at yr egwyddor gyffredinol yma a gofynion Codau Ymarfer y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.
- Mae disgwyl i'r holl aelodau gydymffurfio â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1986 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Yn benodol, cewch chi ddim gwahaniaethu ar sail y canlynol:
  - Trin unrhyw unigolyn yn llai ffafriol nag eraill ar sail rhyw, lliw, statws priodasol, hil, cenedligrwydd neu ethnig o darddiad cenedlaethol, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.
  - Disgwyl i unigolyn gydymffurfio â'r gofyn(ion) sy'n wahanol i'r gofynion ar gyfer eraill (yn seiliedig ar y rhesymau a nodwyd uchod) am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â'u haelodaeth.
  - Gosod gofynion i unigolyn, sy'n wirioneddol fwy llethol i'r unigolyn dan sylw nag ydyn nhw i eraill. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys cymhwyso amod sy'n ei gwneud yn anoddach i aelodau o hil neu ryw benodol i gydymffurfio ag e, nag eraill o hil neu ryw wahanol.
  - Trin unigolyn yn annheg.
  - Aflonyddu unigolyn, yn rhinwedd gwahaniaethu.
  - Unrhyw weithred arall o wahaniaethu/gadael allan wedi seilio ar y rhesymau sydd wedi'u nodi uchod, sydd ag effaith anfanteisiol ar un aelod yn erbyn un arall. Felly, ym mhob un o brosesau recriwtio, dewis, hyrwyddo a hyfforddi'r Clwb, yn ogystal â materion disgyblu, mae'n hanfodol bod teilyngdod, profiad, sgiliau a chymeriad yn cael eu hystyried yn y modd mwyaf gwrthrychol posib.
- Mae'r Clwb yn ymrwymo i ymchwilio yn syth i unrhyw honiadau o wahaniaethu ar y seiliau uchod. Pan fydd achos o'r fath yn codi, mae gofyn bod yr ymarfer yn dod i ben yn syth, bod difrod neu golled yn cael ei adfer (os oes angen), a bod yr aelod dan sylw yn destun ymchwiliad.
- Os bydd unrhyw aelod yn cael ei ddyfarnu'n euog o wahaniaethu, bydd eu haelodaeth yn dod i ben ar unwaith. Gan fod gwahaniaethu yn erbyn polisi'r Clwb, bydd unrhyw aelodau sy'n troseddu yn destun gweithdrefn ddisgyblu.
- Mae'r Clwb wedi ymrwymo i drin aelodau ag anableddau, o ran recriwtio a'u haelodaeth, yn yr un modd ag aelodau eraill. Byddwn ni yn cynnig cymorth i unigolion sydd ag anableddau fel bod y gweithgareddau/sesiynau mor hygyrch â phosibl, lle bynnag y bo modd. Bydd hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig i'r sawl sy'n gofyn amdano.